# Adroddiad Arholwyr TGAU

Pwnc : Cymraeg Iaith

Lefel : TGAU

Tachwedd 2025

© WJEC CBAC Ltd.2025



## Cyflwyniad

Mae adroddiad yr Uwch Arholwyr yn rhoi adborth gwerthfawr ar y gyfres asesu ddiweddar. Yr Uwch Arholwyr a'r Uwch Gymedrolwyr sy'n ysgrifennu'r ddogfen hon ar ôl cwblhau'r marcio a'r cymedroli, ac mae'n cynnwys manylion ynghylch perfformiad ymgeiswyr ym mhob uned.

Mae'r adroddiad hwn yn dechrau â chrynodeb o berfformiad ymgeiswyr, gan gynnwys yr amcanion asesu/sgiliau/testunau/themâu sy'n cael eu profi, ac yn tynnu sylw at nodweddion perfformiad llwyddiannus a lle gellid gwella perfformiad. Yna mae'n edrych ar bob uned yn fanwl, gan nodi agweddau oedd yn heriol i rai ymgeiswyr ac awgrymu rhesymau posibl dros hynny.[1]

Mae'r wybodaeth sydd i'w chael yn yr adroddiad hwn yn helpu ymarferwyr i feithrin dealltwriaeth werthfawr i gefnogi eu gweithgaredd addysgu a dysgu. Byddem hefyd yn annog ymarferwyr i rannu'r ddogfen hon – yn ei chyfanrwydd neu rannau ohoni – â'u dysgwyr i'w helpu i baratoi ar gyfer yr arholiadau, i ddeall sut i osgoi diffygion annisgwyl ac i ychwanegu at eu pecyn cymorth adolygu.

### Cefnogaeth bellach

| Dogfen | Disgrifiad | Cyswllt |
|---|---|---|
| Dysgu Proffesiynol / DPP | Mae CBAC yn cynnig rhaglen eang o ddigwyddiadau Dysgu Proffesiynol wyneb yn wyneb ac ar-lein. Cofrestrwch ar gyfer un o'n digwyddiadau yma i weld adborth rhyngweithiol, adolygu ymatebion enghreifftiol gan ymgeiswyr, cael syniadau ymarferol ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gofyn cwestiynau i'n tîm ymroddedig. | https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/ |
| Cyn-bapurau | Manteisiwch ar y banc o gyn-bapurau ar gyfer y cymhwyster hwn, gan gynnwys yr asesiadau mwyaf diweddar. Noder na fydd y cyn-bapurau ar gael ar y wefan gyhoeddus hyd nes 12 mis ar ôl yr arholiad. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC |
| Gwybodaeth am ffiniau graddau | Ffiniau graddau yw'r nifer isaf o farciau y mae eu hangen i ennill pob gradd.<br>Ar gyfer manylebau unedol, mynegir ffiniau graddau ar Raddfa Marciau Unffurf (GMU). Mae ffiniau graddau GMU yn aros yr un fath bob blwyddyn gan nad yw amrediad y canrannau marciau GMU a ddyrennir i radd benodol yn newid. Mae ffiniau graddau GMU yn cael eu cyhoeddi ar lefel gyffredinol y pwnc a'r uned.<br><br>Gyda manylebau llinol, dyfernir un radd am y pwnc, yn hytrach nag ar gyfer pob uned sy'n cyfrannu tuag at y radd gyffredinol. Cyhoeddir ffiniau graddau ar ddiwrnod y canlyniadau. | Ar gyfer manylebau unedol, cliciwch yma: Canlyniadau, Ffiniau Graddau a Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau (cbac.co.uk) |

[1] ***Noder:** **lle ystyriwyd bod perfformiad cyffredinol mewn cwestiwn/rhan o gwestiwn yn dda, heb unrhyw feysydd penodol i dynnu sylw atynt, nid yw'r cwestiynau hyn wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.***

© WJEC CBAC Ltd.2025

| | | |
|---|---|---|
| Dadansoddi Canlyniadau Arholiadau | Mae CBAC yn darparu gwybodaeth i ganolfannau arholiadau ar Porth CBAC. Cyfyngir y ddarpariaeth hon i staff canolfannau yn unig. Y Swyddog Arholiadau yn y ganolfan sy'n rhoi'r caniatâd i staff y ganolfan gyrchu'r wefan hon. | Porth CBAC |
| Adnoddau Ystafell Ddosbarth | Manteisiwch ar ein hamrywiaeth eang o adnoddau ystafell ddosbarth RHAD AC AM DDIM, gan gynnwys deunyddiau dysgu cyfunol, adnoddau arweiniad i'r arholiad a threfnwyr gwybodaeth i gefnogi addysgu a dysgu. | https://adnoddau.cbac.co.uk/ |
| Banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol | Manteisiwch ar ein banc o ddeunyddiau Dysgu Proffesiynol o ddigwyddiadau blaenorol ar ein gwefan ddiogel a deunyddiau wedi'u recordio ymlaen llaw ychwanegol ar y wefan gyhoeddus. | Porth CBAC neu ar dudalen pwnc CBAC. |
| Dod yn arholwr gyda CBAC. | Rydym bob amser yn chwilio am arholwyr neu gymedrolwyr newydd i'w recriwtio. Gall y cyfleoedd hyn eich helpu i feithrin dealltwriaeth werthfawr o'r broses asesu, gwella eich set sgiliau, gwella eich dealltwriaeth o'ch pwnc a llywio eich addysgu. | Dod yn Arholwr \| CBAC |

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Cynnwys**

| | Tudalen |
|---|---|
| Crynodeb gweithredol | Tudalen 5 |
| Uned 1 | Tudalen 6 |
| Uned 2 | Tudalen 11 |
| Uned 3 | Tudalen 16 |
| Eich cefnogi chi – manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol | Tudalen 19 |

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Crynodeb Gweithredol**

Diolch i'r canolfannau am eu gwaith yn paratoi'r ymgeiswyr. Roedd mwy o ymgeiswyr nag erioed o'r blaen wedi sefyll TGAU Cymraeg Iaith yn y gyfres hon, 932 a 99.1% o'r ymgeiswyr ym Mlwyddyn 11.

**Uned 1**

Rhaid canmol ymdrechion canolfannau ac ymgeiswyr Uned 1 am drafodaethau aeddfed a chyflwyniadau manwl. Mae'r gwaith gweinyddol yn gyffredinol yn drefnus, ond mae angen lleihau gwallau megis ffeiliau anghywir a sain ansafonol ar y recordiadau. Yn y cyflwyniadau unigol, mae'r goreuon yn dangos dadansoddiad, strwythur clir a defnydd naturiol o iaith, ond mae rhai yn parhau i restru ffeithiau heb ddehongli. Mae angen annog cwestiynau ar ddiwedd cyflwyniadau a lleihau dibyniaeth ar nodiadau. Mae'r trafodaethau grŵp yn aml yn naturiol ac aeddfed, ond mae rhai ymgeiswyr yn dibynnu ar athrawon neu nodiadau. Clywir gwallau iaith cyffredin yn cynnwys treigladau a geiriau Saesneg. Wrth asesu, pwysleisir bod dadansoddi, cywirdeb iaith a naturioldeb yn hanfodol i gyrraedd y bandiau uchaf. Argymhellir osgoi sgriptio, hybu ymwybyddiaeth o gynulleidfa a datblygu sgiliau gwrando a dadlau.

**Uned 2**

Roedd y garfan yn fach o gymharu gyda chyfres yr Haf, felly mae'r ystod perfformiad yn gyfyngedig yn y gyfres hon. Darllen oedd thema'r papur ac roedd y papur yn hygyrch ar draws yr ystod gallu, gyda nifer fach o atebion heb eu hymgeisio. Yn Adran A, llwyddodd y rhan fwyaf i ateb cwestiynau adalw gwybodaeth, ond mae angen datblygu medrau darllen uwch. Roedd cwestiynau dadansoddi, fel A6, yn heriol i rai, ond gwelwyd gwelliant yn defnyddio patrwm EEE/PEE. Mae angen annog ymgeiswyr i ddehongli pwrpas ac effaith nodweddion yn well. Yn A10, llwyddodd y mwyafrif i gymharu'n briodol, ond roedd dod i gasgliadau'n wan. Yn Adran B, roedd ymatebion yn estynedig ac yn drefnus, ond diffyg gwreiddioldeb yn rhwystro cynnydd i'r band uchaf. Mae angen sylw i gywirdeb iaith, atalnodi, treigladau a defnyddio termau Cymraeg yn gywir. Cryfderau amlwg adran B oedd ymwybyddiaeth o gynulleidfa, defnydd o eirfa addas a strwythur tasgau. Meysydd sydd i'w datblygu yw amrywio brawddegau, defnyddio cysyllteiriau priodol a gwella rheolau gramadeg sylfaenol.

**Uned 3**

Roedd y papur yn hygyrch ac wedi apelio at ymgeiswyr, er bod nifer yn dal i adael cwestiynau'n wag wrth i'r cwestiynau uwch sgiliau darllen ymddangos ar y papur. Roedd perfformiad Adran A yn gryf ar y cwestiynau adalw gwybodaeth, gyda gwendidau'n ymddangos mewn dehongli manwl, dewis ffeithiau perthnasol, ac ymatebion i gwestiynau mwy dadansoddol fel A5, A6 ac A9. Cafwyd tystiolaeth o ddryswch geiriol ac o ddylanwad Saesneg ar eirfa ac idiomau.

Yn Adran B, roedd ymatebion yn dangos creadigrwydd ac ymgysylltiad, yn enwedig yn B1, ond roedd safon iaith a chywirdeb gramadegol yn parhau'n her sylweddol. Gwelwyd cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr yn ymgeisio'r tasgau estynedig o gymharu â chyfres Haf 2025.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## UNED 1 : LLAFAR

### Trosolwg o'r Uned

Sylwadau cyffredinol
Hoffwn ddiolch i'r holl ganolfannau am eu harweiniad ac am sicrhau bod yr ymgeiswyr i gyd yn cael y cyfleoedd gorau i lwyddo yn y ddwy dasg. Mae'r ymgeiswyr yn parhau i drafod pynciau amrywiol sydd yn amlwg o ddiddordeb iddynt. Wrth ryngweithio clywid trafodaethau manwl a rhai enghreifftiau o ymgeiswyr yn mynegi safbwyntiau aeddfed iawn. Er nad oedd y cyfnodau clo wedi effeithio'n uniongyrchol ar addysg uwchradd yr ymgeiswyr yma, mae'r effaith hir dymor dal i'w deimlo o fewn canolfannau, yn enwedig o ran sgiliau llafar yr ymgeiswyr. Diolch i'r holl addysgwyr yn y canolfannau am eich ymdrechion cyson i fagu hyder yr ymgeiswyr ar lafar. Diolch hefyd i'r safonwyr am sicrhau tegwch a chysondeb i'r holl ymgeiswyr. Cyflwynir y sylwadau isod yng nghyd-destun cofrestriadau llai na chyfres yr haf ond roedd cofrestriadau eleni yn uwch na blynyddoedd diweddar.

Gwaith gweinyddol
Roedd y gwaith gweinyddol yn drefnus ac yn gyflawn bron yn ddieithriad. Gwerthfawrogir ymdrechion y canolfannau i gyflwyno nodiadau'r ymgeiswyr ar blatfform digidol gan gydnabod y llwyth gwaith sy'n ymwneud â'r broses. Gyda phob cyfres, gwelir datblygiad calonogol yn y nodiadau a geir ar y taflenni marciau ac mae'r sylwadau yn gosod cyd-destun gwerthfawr i ni fel safonwyr.

Cryfderau:
- Cyflwynwyd yr asesiadau erbyn y dyddiad a bennir gan CBAC.
- Roedd y gwaith wedi'u labelu'n glir ac roedd nifer o ganolfannau wedi gosod y gwaith ar ffurf ffeil Zip. Roedd hyn yn hwyluso'r broses o safoni'n fawr.
- Roedd nodiadau'r athro yn fanwl mewn sawl achos gyda rhai sylwadau'n nodi'r hyn oedd yn cadw'r ymgeisydd rhag cyrraedd band uwch.
- Cadwyd at y terfynau amser yn amlach na pheidio.
- Roedd sain y recordiadau'n dda, ar y cyfan.
- Roedd mwyafrif y canolfannau wedi cyflwyno nodiadau'r ymgeiswyr ar gyfer y ddwy dasg.
- Nodwyd bod dibyniaeth ar nodiadau mewn ambell achos a chyfeiriwyd at y ffaith i hyn gael ei ystyried wrth bennu marc.
- Nodwyd y manylion perthnasol ar ddechrau'r traciau bron yn ddieithriad.
- Diolch am sicrhau bod safonwyr yn adnabod lleisiau gwahanol unigolion drwy eu bod wedi cyflwyno eu hunain cyn dechrau trafod.

Meysydd i'w datblygu:
- Gwelwyd ambell wall gweinyddol megis nodi'r marciau anghywir i dasgau ar IAMIS neu ddanfon llwytho nodiadau'r ymgeisydd anghywir.
- Roedd ambell sylw yn tueddu i ail-ysgrifennu'r hyn sydd ar y cynllun marcio, ond eithriadau prin oedd y rhain.
- Gwelwyd nifer fach o achosion o sain wael ar y recordiadau, hynny yw, doedd hi ddim yn bosib clywed yr ymgeisydd yn iawn am eu bod nhw'n dawel iawn ar y recordiad. Roedd hyn yn amlycach pan roedd fideo o'r ymgeiswyr am nad oedd y meicroffon yn ddigon cryf i ddal sain yr ymgeisydd.
- Gwelwyd ambell i recordiad ble'r oedd tarfu ar yr asesiad am fod cyhoeddiadau ar system uwchseinio'r ysgol. Dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad oes unrhyw darfu ar yr arholiad.

© WJEC CBAC Ltd.2025

- Roedd ambell i ganolfan heb osod y recordiadau sain ar ffurf MP3 felly roedd rhaid addasu'r ffeiliau. Nodir yng nghanllawiau asesiadau di arholiad ein bod ni'n argymell MP3 ar gyfer sain ac MP4 ar gyfer traciau gweledol.
- Prin oedd tystiolaeth o safoni ymysg y canolfannau. Os ydy'r tasgau wedi cael eu safoni mae'n bwysig nodi hyn ar y daflen gofnodi marciau.
- Gwelwyd nifer o achosion o ganolfannau yn peidio â danfon taflenni nodiadau ar gyfer tasgau na chwaith yn esbonio'r diffyg nodiadau ar y daflen gofnodi marciau. Mae hefyd yn bwysig cynnwys yr holl nodiadau sy'n cael eu defnyddio gan yr ymgeiswyr. Gwelwyd ambell i enghraifft o nodiadau nad oedd yn cyd-fynd â'r hyn a glywir ar y recordiad.

**Cyflwyniad Unigol ar Sail Ymchwil**

Mae'n amlwg bod yr ymgeiswyr wedi derbyn hyfforddiant cadarn oherwydd roedd yr ymgeiswyr, bron yn ddieithriad wedi dangos dealltwriaeth gadarn o ofynion y dasg. Er bod rhai enghreifftiau o ymgeiswyr nad oedd wedi llwyddo i strwythuro'r cyflwyniad roedd yr athrawon wedi llwyddo i annog yr ymgeiswyr i wneud cyfraniad llafar gan ofyn cwestiynau mewn modd sensitif. Dewiswyd amrywiaeth eang o destunau a'r canolfannau'n sicrhau bod y testunau'n addas ar gyfer yr ymgeiswyr unigol ar y cyfan. Gwelwyd mwy o ymgeiswyr yn gwneud defnydd o gwestiynau rhethregol, idiomau a dyfyniadau pwrpasol er mwyn ennyn diddordeb ac roedd hyn yn hyfryd i glywed.

Cryfderau:

- Mae'r cyflwyniadau gorau yn rhai naturiol heb orddibyniaeth ar nodiadau.
- Ar frig y marciau – y goreuon yn llwyddo i ddadansoddi trwy'r cyflwyniad – nid mewn un agwedd yn unig.
- Testunau amrywiol o fewn canolfannau yn adlewyrchu diddordebau eang megis Merched ym myd pêl-droed, defaid, cneifio, F1, beicio mynydd, a rygbi.
- Mwy a mwy o ymgeiswyr yn y bandiau canol yn siarad am agweddau penodol o chwaraeon, yn lle'r chwaraeon yn gyffredinol, e.e. 'Anafiadau o fewn rygbi' a 'Technoleg ym mhêl-droed' er mwyn annog dadansoddi mwy effeithiol.
- Llwyddodd nifer i sbarduno diddordeb yn eu maes trwy ymgysylltu â'r gynulleidfa o'r dechrau trwy ddulliau megis datganiadau, dyfyniadau a chwestiynau rhethregol.
- Roedd y mwyafrif wedi trefnu eu gwaith ymchwil yn effeithiol gan flaenoriaethu gwybodaeth yn drefnus ac yn cyflwyno sawl agwedd gwahanol ar y pwnc.
- Gwelwyd mwy o ddisgyblion islaw'r bandiau yn gosod nod a chyd-destun cyn cyflwyno agweddau.
- Cafwyd arweiniad sensitif mewn sawl achos pan nad oedd yr ymgeisydd wedi ymchwilio'n ddigonol neu heb drefnu cyflwyniad.
- Cafwyd rhai achosion o ateb cwestiynau yn fanwl a naturiol gyda'r atebion hynny yn ychwanegu at y cyflwyniad.
- Gwelwyd nodiadau unigol cryno iawn ac yn cynnwys symbolau yn lle geiriau ac arweiniai'r rhain at fwy o naturioldeb yn y cyflwyno.
- Crynhoi wrth gloi a chyfeirio'n ôl at y cyd-destun a osodwyd ar y dechrau.
- Ymdrech dda gan rai i ddefnyddio geirfa dechnegol yn naturiol.

Meysydd i'w datblygu:

- Mae'r duedd gan rai i restru ffeithiau cryno a moel yn parhau e.e. Adrodd hanes sefydlu rygbi.
- Nid oedd ôl ymchwilio ar rai cyflwyniadau a chofier mai dyma sylfaen y dasg ac nid siarad o brofiad personol yn unig (mae'r elfen o ddethol, blaenoriaethu a threfnu gwybodaeth yn rhan allweddol o'r dasg).
- Unwaith eto, ni roddwyd cyfle i rai ateb cwestiynau ar derfyn y cyflwyniadau a byddent wedi cael budd o wneud hynny er mwyn dangos mwy o wybodaeth a mwy o naturioldeb.

© WJEC CBAC Ltd.2025

- Colli cyfle i holi cwestiwn a allai arwain at ddehongli naturiol ar derfyn y cyflwyniad, e.e. Sut mae beicio mynydd yn fuddiol o ddydd i ddydd a pham?
- I'r pegwn arall, nid yw atebion wedi eu sgriptio i gwestiynau wedi eu paratoi ymlaen llaw yn ychwanegu dim at y cyflwyniad ei hun, fe fyddai'n well i annog yr ymgeiswyr i gynnwys y wybodaeth yn y cyflwyniad gwreiddiol.
- Rhaid ystyried safon y dadansoddi a her y pwnc wrth bennu marc, dydy aralleirio ffeithiau ddim yn dangos sgiliau dadansoddi.
- Nodiadau gorfanwl yn troi'r dasg yn dasg ddarllen yn hytrach na thasg lafar.
- Dethol geirfa sydd o fewn gallu'r ymgeisydd neu ymarfer geirfa newydd yn gyson i gyfleu ystyr - rydyn ni'n dal i glywed ymgeiswyr sydd yn methu ynganu geiriau anghyfarwydd sydd yn effeithio ar eglurder y cyflwyniad.
- Rhaid atgoffa'r ymgeiswyr mai cyflwyniad rhwng 5 a 7 munud un unig yw hwn. Gwelwyd ambell i gyflwyniad yn agos at 10 munud o hyd a dydy hwn ddim yn dangos y gallu i flaenoriaethu a threfnu gwybodaeth.

Enghreifftiau o destunau:
- JRR Tolkien
- Pysgota
- Y Gemau Olympaidd
- Tîm pêl-droed Barcelona
- Hiliaeth o fewn pêl-droed

**Ymateb a Rhyngweithio**

Cafwyd trafodaethau bywiog a difyr. Roedd nifer o'r grwpiau yn trafod yn gwbl annibynnol am ddeng munud ac mae hyn i'w ganmol yn fawr. Roedd angen cymorth yr athro ar rai o'r grwpiau i lywio'r drafodaeth ar adegau. 'Gwyliau'r Haf' oedd y testun a ddewiswyd amlaf fel y gwelwyd yng nghyfres yr haf, gydag ambell un yn dewis trafod 'Newid hinsawdd' a 'Prom!' hefyd. Llwyddodd y mwyafrif i wneud defnydd da o'r sbardun neu yn gwneud defnydd o'u profiadau personol ac roedd y grwpiau oedd yn dangos mwy o aeddfedrwydd wedi perchnogi'r dasg ac wedi gwneud gwaith ymchwil annibynnol.

Cryfderau:
- Trafodaethau manwl a phwrpasol gan rai oedd wedi trafod tua thair agwedd ar y testun mewn dyfnder.
- Gwelwyd trafodaethau hynod o naturiol gan fod llai o ôl sgriptio.
- Bron yn ddieithriad roedd yr ymgeiswyr yn mynegi barn yn gyson gan gynnig rhesymau addas.
- Yn achos y rhai sydd wirioneddol yn gwrando ar ei gilydd, mae'r drafodaeth yn esblygu'n naturiol a'r rhyngweithio'n gwbl naturiol.
- Roedd y goreuon yn trafod y testunau'n ddeallus gan gynnig tystiolaeth tu hwnt i'r sbardun.
- Dod i gasgliadau ar derfyn y drafodaeth a chyfle i bob aelod grynhoi ei safbwyntiau.
- Aelodau'r grwpiau yn newid cyfeiriad y drafodaeth heb arweiniad athro.
- Gwelwyd arweiniad sensitif gan yr athro gydag ymgeiswyr yn y bandiau is i lywio'r sgyrsiau a sicrhau cyfraniad gan bob aelod o'r grŵp.
- Ar y cyfan roedd yr amseru'n dda, gyda'r mwyafrif o ganolfannau'n sicrhau bod yr ymgeiswyr yn cadw at y terfyn amser o 10 munud.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Meysydd i’w datblygu:
- Gwelwyd rhai achosion o athrawon yn ymyrryd yn gynnar iawn yn y drafodaeth heb angen. Mae’n iawn i gael rhai eiliadau o dawelwch wrth i’r ymgeiswyr rhoi trefn ar eu hymatebion.
- Mae hefyd angen ystyried ymyrraeth yr athro wrth bennu marc. Os oes angen cymorth oddi wrth yr athro er mwyn cynnal y drafodaeth ni ddylid gosod yr ymgeiswyr yn uwch na band 3.
- Mae rhai yn parhau i gyflwyno gwybodaeth ar draul mynegi barn.
- Roedd nifer o grwpiau yn cynnig profiadau personol i gyfiawnhau eu barn, ond heb gyfeirio at y dystiolaeth sydd ar gael ar y sbardun, nac wedi ymchwilio’n bellach.
- Cyflwynwyd copi o’r sbardun heb nodiadau mewn ambell achos ble’r oedd yn amlwg bod dibyniaeth ar nodiadau.
- Rhaid sicrhau bod y sbardunau cywir ar gyfer y cyfnod arholi yn cael eu defnyddio.
- Er bod yr ymgeiswyr yn cyflwyno’u hunain ar ddechrau’r drafodaeth mae’n anodd ar adegau i adnabod lleisiau’r disgyblion. Fe fyddai annog y disgyblion i enwi ei gilydd yn ystod y drafodaeth yn gymorth enfawr i’r safonwyr, e.e. “Cytunaf, Eleri…”
- Mae rhai ymgeiswyr, yn enwedig yn y bandiau uwch, yn dal yn rhy ddibynnol ar nodiadau sydd yn effeithio ar naturioldeb y drafodaeth.
- Mae’n rhaid sicrhau nad ydy’r sgwrs yn para fwy na 10 munud. Roedd rhai enghreifftiau o sgyrsiau’n para dros 15 munud.

Iaith:
Mae mor hyfryd i glywed tafodiaith amrywiol Cymru gyfan wrth wrando ar y tasgau yma ac rydw i’n gobeithio bydd hyn yn parhau. Mae’r ymgeiswyr ar draws y bandiau yn ymdrechu i ddefnyddio terminoleg y testun yn Gymraeg ac yn gwneud yn naturiol. Gyda’r cynnydd yn y nifer o ymgeiswyr sydd yn ddibynnol ar raglenni cyfrifiaduron i greu a chyfieithu’r cyflwyniadau mae heriau newydd yn wynebu canolfannau. Mae’r nifer o ymgeiswyr sydd yn ei chael hi’n anodd ynganu geiriau tu hwnt i’w profiad yn cynyddu. Hoffwn annog y canolfannau i ddefnyddio’r cyfnod baratoi i hybu’r ymgeiswyr i lunio cyflwyniadau sydd o fewn eu gallu ieithyddol. Gwallau cyffredin:
- Nifer o dermau’r byd chwaraeon yn benodol yn Saesneg.
- Gwallau treiglo ar ôl ‘yn’ traethiadol e.e. yn gael, yn gwirion.
- Gwallau treiglo yn dilyn yr arddodiaid yn ogystal â rhedeg yr arddodiaid yn anghywir.
- Cystrawen e.e. Bod mae, rhy gormod, mewn y bore, a.y.b.
- Gwallau amrywiol yn ymwneud â chenedl enwau.
- Yn defnyddio ei benywaidd a gwrywaidd yn anghywir.
- Defnyddio bratiaith yn gyson neu eiriau Saesneg yn gyson.

**Tasgau**
**Sylwadau am dasgau/cwestiynau yn ymwneud â pherfformiad ymgeiswyr/bodloni meini prawf asesu**

1. Er mwyn strwythuro cyflwyniadau pwrpasol ble mae dehongli cyson yn digwydd, dylid ystyried gosod datganiad neu gwestiwn ar ddechrau’r cyflwyniad ac fel agweddau.
2. Dylid osgoi sgriptio’r ddwy dasg er mwyn sicrhau naturioldeb ac apêl i’r gynulleidfa.
3. Mae dangos ymwybyddiaeth gref o gynulleidfa yn cyfoethogi’r dasg unigol. Dylid ystyried ymarfer ffurfio cwestiynau rhethregol pwrpasol.
4. Dylid gwrando yn ofalus yn ystod y drafodaeth grŵp er mwyn ymateb yn naturiol i’r safbwyntiau gan ddatblygu dadleuon mewn dyfnder trwy hynny.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**Marcio tasgau**
**Sylwadau am ddulliau marcio mewnol**

Mae'r duedd i fod yn hael yn parhau ac yn deillio o ddealltwriaeth o allu ymgeisydd ar ei orau. Rhaid, serch hynny, asesu'r perfformiad ar y diwrnod. Y prif heriau ac ystyriaethau wrth bennu marc yw:

1. Lefel y gwerthuso, dadansoddi a dehongli sy'n bresennol mewn cyflwyniadau unigol – ni ellir cyrraedd Band 3 gyda chyflwyniad sy'n rhestr o ffeithiau ac ni ellir cyrraedd Band 4 heb werthuso a dadansoddi pwrpasol na chwaith Fand 5 heb aeddfedrwydd a threiddgarwch. Rhaid hefyd ystyried natur y pwnc, hynny yw, os nad ydy'r pwnc yn trafod materion aeddfed, ni all gyrraedd Band 5.

2. Lefel cywirdeb yr iaith, ehangder yr eirfa a chywirdeb y patrymau e.e. gellir derbyn y bydd gwallau iaith ym Mand 4 ond ni ellir cyrraedd y band hwn pan fo gwallau amrywiol ac arwyddocaol sy'n effeithio ar y cyfathrebu yn amlwg (sawl math o wall, cystrawennau chwithig, berfau anghywir, geiriau Saesneg a chenedl enwau). Dylid hefyd ystyried eglurder yr ymgeisydd wrth ddefnyddio geiriau anghyfarwydd.

3. Manylder, dyfnder a lefel aeddfedrwydd y drafodaeth grŵp e.e. gellir trafod am ddeng munud ond bod y drafodaeth yn ailadroddllyd a'r safbwyntiau heb eu datblygu.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**CYMRAEG IAITH**

**TGAU**

**Tachwedd 2025**

**UNED 2 : DISGRIFIO, NARATIF AC ESBONIO**

## Trosolwg o'r Uned

Diolch i'r holl ganolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr ar gyfer y gyfres hon. Diolch i chi am eich gwaith trylwyr a diflino yn paratoi'r ymgeiswyr. Er bod mwy o ymgeiswyr nag arfer wedi cael eu cofrestru yn gyfres, roedd y garfan yn parhau i fod yn un fechan iawn ac oherwydd hynny ni welwyd yr un ystod a welwyd yng nghyfres Mehefin 2025. Mae hi'n bwysig cadw hynny mewn cof pan fyddwch yn darllen yr adroddiad hwn. Mae'r Data Lefel Eitem yn dangos bod hwn wedi bod yn bapur a oedd yn hygyrch i'r ymgeiswyr ar draws yr ystod gallu. Roedd hi'n braf gweld mai ychydig o atebion heb eu hymgeisio a welwyd yn ystod y gyfres a gobeithiwn felly bod y profiad wedi bod yn un cadarnhaol i'r holl ymgeiswyr.

Yn debyg i'r patrwm a welwyd yn y cyfresi blaenorol, roedd y cwestiynau adalw gwybodaeth yn Adran A yn hygyrch ar y cyfan i'r ymgeiswyr oll. Yn flynyddol, gwelir bod strwythur yr atebion sy'n gofyn i'r ymgeiswyr ddefnyddio'r medrau darllen uwch yn datblygu ac mae hynny i'w ganmol ond mae gwaith pellach i'w wneud er mwyn datblygu'r medrau darllen uwch. Yn Adran B, mae'n rhaid canmol yr ymgeiswyr ar waelod yr ystod am lwyddo i gyflwyno tasgau estynedig a threfnus. Yn yr un modd, mae'n rhaid canmol y gwaith sydd wedi digwydd er mwyn datblygu cynnwys y tasgau. Mae hi'n amlwg bod gan yr ymgeiswyr ymwybyddiaeth o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn apelio at gynulleidfa. Serch hyn, mae safon yr iaith a gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso'r rheolau gramadeg sylfaenol yn eu gwaith yn parhau i fod yn destun pryder. Caf gyfle i fanylu ymhellach ar hyn yn yr adroddiad.

Mae hi'n amlwg bod gwaith arbennig yn digwydd ar lawr y dosbarth gyda'r ymgeiswyr, diolch i chi gyd am y gwaith pwysig hwnnw. Gobeithiaf y bydd y sylwadau canlynol yn ddefnyddiol i chi wrth baratoi ymgeiswyr y garfan nesaf.

## Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

## Adran A

Ni chafwyd trafferthion penodol yn y cwestiynau canlynol A1, A2, A3, A4, A5, A7 ac nid oes angen manylu ymhellach ar y cwestiynau hyn.

### A6

Roedd cwestiwn A6 yn gofyn i'r ymgeiswyr *werthuso a dadansoddi techneg awdur* gan fanylu'n benodol ar 'sut mae'r awdur yn llwyddo i ddangos y bydd pobl yn **mwynhau'r** nofel hon?' (Sêr y nos yn gwenu gan Casia Wiliam).

Er bod y cwestiwn hwn wedi profi'n her i nifer o ymgeiswyr, gwelwyd mwy o ymgeiswyr yn llwyddo i gyfeirio at rai technegau penodol a welwyd yn y darn darllen yn ogystal â'u henghreifftio'n gywir. Y farn gyffredinol gan yr arholwyr oedd ei bod hi'n amlwg bod gwaith da yn digwydd ar lawr y dosbarth wrth hyfforddi'r ymgeiswyr i adnabod y technegau ac enghreifftio. Unwaith eto yn y gyfres hon, roedd hi'n galonogol gweld y rhan fwyaf ohonynt yn cyflwyno atebion trefnus yn defnyddio'r patrwm EEE / PEE yn llwyddiannus ar y cyfan.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Nodwyd y canlynol yn adroddiad yr haf – *"er mwyn datblygu'r atebion ymhellach dylid annog yr ymgeiswyr i ddehongli/gwerthuso pwrpas ac effaith y nodweddion yng nghyd-destun y cwestiwn".* Roedd hyn yn wir am y gyfres hon yn ogystal, roedd nifer o'r ymgeiswyr yn trafod sut oedd y nodweddion yn llwyddo i berswadio pobl i ddarllen y nofel yn hytrach na thrafod y cwestiwn dan sylw sef sut mae'r awdur yn llwyddo i ddangos y byddai pobl yn mwynhau darllen y nofel hon. O ganlyniad i hyn, roedd sawl un yn trafod technegau nad oedd yn bwrpasol nac yn addas er mwyn ateb y cwestiwn dan sylw. Gwelwyd ambell derm Saesneg yn cael ei ddefnyddio gan rai ymgeiswyr, nid oedd y technegau hynny'n cael eu gwobrwyo.

**A8**

Mae'n rhaid canmol ymdrech yr ymgeiswyr yn y cwestiwn hwn. Roedden nhw'n dangos eu bod nhw'n gallu mynegi eu barn yn llwyddiannus ar y cyfan gan ddefnyddio tystiolaeth yn effeithiol o'r darn darllen er mwyn rhesymu a chyfiawnhau. Weithiau, byddai wedi bod yn braf gweld mwy o fanylder wrth resymu. Roedd sawl un yn nodi *"Yn fy marn i bydd mwy o bobl yn darllen oherwydd bod Jess Fishlock yn chwarae pêl droed i Gymru".* Roedden nhw'n colli cyfle i ddatblygu eu hatebion. Roedd yr ymgeiswyr ar waelod yr ystod yn llwyddo i ennill 1 marc am godi ffeithiau perthnasol o'r darn darllen yn unig heb unrhyw ymgais i fanylu / dehongli.

**A10**

Roedd cwestiwn A10 yn profi gallu'r ymgeiswyr i ddehongli wrth gymharu dau ddarn darllen. Gwelwyd mwy o atebion heb eu hymgeisio ar gyfer y cwestiwn hwn nag unrhyw gwestiwn arall yn Adran A. Nodwyd yn adroddiad Uned 3 Tachwedd 2023 'mae'n bwysig hyfforddi ymgeiswyr i ystyried beth maen nhw'n mynd i fod yn ei gymharu.' Roedd hi'n braf gweld eleni bod yr ymgeiswyr yn cymharu'r hyn a oedd yn cael ei ofyn yn y cwestiwn, ac mae hi'n galonogol gweld bod negeseuon adroddiadau'r gorffennol yn dwyn ffrwyth.

Llwyddodd y mwyafrif helaeth i gymharu gwybodaeth o'r ddau ddarn darllen yn bwrpasol yn ogystal â defnyddio dyfyniadau addas er mwyn atgyfnerthu pwyntiau penodol.

Roedd strwythur a threfn yr atebion yn y gyfres hon yn dda ar y cyfan ar draws yr ystod. Roedd y rhan fwyaf yn llwyddo i ddangos eu bod nhw'n gallu cymharu'r ddau ddarn yn fwriadol, ac mae hynny o ganlyniad i'r gwaith da sy'n digwydd ar lawr dosbarth er mwyn hyfforddi'r ymgeiswyr.

Serch hyn, mae hi'n holl bwysig bod yr ymgeiswyr yn cymharu ffeithiau sy'n gymharol i'w gilydd. Roedd ambell un yn nodi bod y profiadau'r ddwy yn wahanol oherwydd bod "Jess Fishlock yn chwarae pêl droed ond nid yw Becci Phasey yn chwarae pêl droed". Nid oedd ffeithiau nad oeddent yn cyfateb i'w gilydd yn cael eu gwobrwyo.

Y gwendid pennaf yn y cwestiwn hwn oedd gallu'r ymgeiswyr i dynnu casgliadau a dehongli'r wybodaeth ac oherwydd hynny prin iawn oedd yr ymgeiswyr a oedd yn croesi trothwy 3 marc. Da o beth fyddai annog yr ymgeiswyr ar frig yr ystod i nodi'r casgliadau ar ddechrau pob paragraff wrth ymateb, cyn enghreifftio a dehongli.

Roedd atebion y lleiafrif o ymgeiswyr yn hynod safonol a'u gallu i dynnu casgliadau aeddfed a chynnil yn rhagorol. Roedd hi'n bleser darllen eu hymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Golygu

### A11

**(i) Sawl un yn dewis 'dweud' / 'awgrymir' yn hytrach nag 'argymell'**

**(ii)** Rhan fwyaf yn llwyddo i ennill 1 marc wrth drosi'r unigol 'cofia' = cofiwch neu 'llyfr' = llyfrau. Ond prin oedd yr ymgeiswyr a oedd yn ennill y 2 farc yn llawn.

## Adran B

Roedd hi'n amlwg bod y ddwy dasg yn y cwestiwn hwn wedi apelio ac mae'r data lefel eitem yn profi hynny. Rhoddodd 97.4% o'r holl ymgeiswyr gynnig ar ateb y cwestiwn ac mae hynny'n hynod galonogol. Prin iawn, iawn oedd yr atebion gwag a phrin iawn oedd yr atebion byr yn ogystal. Unwaith eto eleni, roedd hynny'n destun codi calon ac yn arwydd o'ch dyfalbarhad chi gyda'r ymgeiswyr ar lawr dosbarth, diolch i chi. Llwyddodd y rhan fwyaf i ysgrifennu darnau cyflawn, estynedig, trefnus a chafwyd ymatebion hynod gadarnhaol i'r ddau ddewis. Diffyg gwreiddioldeb sy'n rhwystro sawl ymgeisydd rhag dringo o fand 3 i fand 4 ac roedd trwch yr ymgeiswyr yn cyrraedd band 3 yn gyfforddus o ran cynnwys ac iaith. Byddwn yn annog yr ymgeiswyr i roi sylw penodol i'r testun ysgrifennu dan sylw yn y cwestiwn gan gofio eu bod nhw'n ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa benodol.

Roedd strwythur y tasgau a gyflwynwyd yn drefnus yn gyffredinol ar draws yr ystod ond mae'r cywirdeb parhau i beri pryder.

### Cofnod Blog

**Cryfderau:**

- Roedd gwaith y lleiafrif a oedd yn cyrraedd y band uchaf yn aeddfed a chrefftus. Roedd y cyfanweithiau'n hoelio sylw'r darllenydd drwyddi draw gyda'i defnydd hyderus o dechnegau amrywiol.
- Ym marn yr arholwyr, mae ansawdd cynnwys y tasgau yn Adran B wedi gwella. Mae'r ymgeiswyr yn fwy ymwybodol o'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn apelio ac o ganlyniad i hynny maent yn cyrraedd band 3. Roedd ganddynt ymwybyddiaeth dda o'u cynulleidfa ac yn llwyddo i gyfathrebu gyda hwy yn effeithiol ar y cyfan drwyddi draw.
- Roedd yr ymgeiswyr a oedd yn cyrraedd band 3 yn dangos ymwybyddiaeth amlwg o dechnegau megis ansoddeiriau, cyffelybiaethau, idiomau ac roedd ymgais amlwg iawn i apelio at y darllenydd.
- Mae hi'n amlwg bod gwaith da wedi bod yn digwydd ar lawr dosbarth er mwyn sicrhau bod y dysgwyr yn agor ac yn cloi eu tasgau'n effeithiol – roedd hynny i'w weld yn amlwg yn y dasg hon.
- Llwyddodd yr ymgeiswyr ar waelod yr ystod i fynegi eu hunain yn glir a chyflwyno tasgau trefnus.
- Roedd hi'n braf gweld bod yr ymgeiswyr wedi llwyddo i ysgrifennu blogiau a oedd yn apelio. Cafwyd amrywiaeth o weithgareddau hamdden ganddynt o bêl droed i bwytho i blannu blodau.

**Meysydd i'w datblygu:**

- Ambell ymgeisydd yn parhau i fod yn ddibynnol iawn ar y darnau darllen yn Adran A.
- Pan fyddant yn sôn am weithgaredd penodol mae hi'n bwysig eu bod nhw'n defnyddio'r termau Cymraeg cywir yn hytrach na'r rhai Saesneg.

© WJEC CBAC Ltd.2025

- Annog yr ymgeiswyr i ddefnyddio'r cysyllteiriau pwrpasol sy'n perthyn i'r testun.
- Mae'n rhaid i ymgeiswyr gofio atalnodi eu gwaith yn bwrpasol.
- Osgoi defnyddio 'Mae' ar ddechrau bob brawddeg – amrywio'r brawddegau er mwyn cynnal diddordeb.

**Adroddiad**

**Cryfderau**

- Roedd hi'n braf gweld gwreiddioldeb a hiwmor yn cael ei ddefnyddio wrth sôn am ddigwyddiadau Diwrnod y Llyfr yn eu hysgolion. Nododd sawl arholwr eu bod nhw wedi chwerthin yn uchel wrth ddarllen y tasgau.
- Gwaith y goreuon ar frig yr ystod yn arbennig – pleser oedd eu darllen.
- Ymwybyddiaeth dda o gynulleidfa gan y mwyafrif a'r cywair yn addas ar gyfer cylchgrawn ysgol.
- Defnydd da iawn o dechnegau amrywiol er mwyn cynnal diddordeb y gynulleidfa e.e defnydd o ddyfyniadau gan unigolion gwahanol.
- Strwythur addas, sawl un wedi defnyddio is-benawdau / adrannau ac roedd hynny'n addas ac effeithiol ar gyfer y pwrpas.

**Meysydd i'w datblygu:**

- Gwelwyd sawl enghraifft a oedd yn fwy o stori yn hytrach nag adroddiad ac oherwydd hynny nid oedd y cywair yn addas ar gyfer y pwrpas a'r gynulleidfa.
- Dim cymaint o apêl yn yr adroddiadau o'u cymharu â'r blogiau. Roeddent yn dueddol o restru digwyddiadau ac oherwydd hynny'n colli'r cyfle i apelio at y gynulleidfa.
- Nid oedd yr agoriad a'r clo cystal yn y dasg hon.
- Roedd y mwyafrif yn cyrraedd band 3 ac mae angen mwy o wreiddioldeb er mwyn camu dros riniog band 4. Mae angen annog yr ymgeiswyr i ymarfer a defnyddio amrywiaeth o dechnegau gwahanol.

**Ysgrifennu'n gywir**

Hoffwn ategu'r neges arferol unwaith eto yn y gyfres hon - mae gweld cymaint o bobl ifanc Cymru yn ymdrechu i ysgrifennu'n estynedig ac yn bwrpasol **yn y Gymraeg** yn codi calon, er ei bod hi'n amlwg ar brydiau nad yw hyn yn rhwydd o gwbl i rai. Diolch iddyn nhw am eu hymdrech arbennig. Roedd hi'n destun balchder darllen gwaith nifer o'r ymgeiswyr ac roedd safon iaith y lleiafrif ar frig yr ystod yn rhagorol a'u gallu i drin a defnyddio iaith yn gampus. Serch hyn, nododd pob un arholwr eu bod nhw'n pryderu am gywirdeb a gafael yr ymgeiswyr ar reolau sylfaenol gramadeg. Mae'n **rhaid** i hyn fod yn flaenoriaeth yn ein canolfannau wrth i ni fynd ati i baratoi ymgeiswyr ar gyfer y cymhwyster TGAU Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg.

Cryfderau

- Defnydd o eirfa'n dda ar draws yr ystod – roedd yr eirfa'n addas ar gyfer y pwrpas a'r gynulleidfa yn y ddwy dasg
- Ymgais ar draws yr ystod i ddefnyddio geirfa a oedd yn heriol, mae'n amlwg bod gwaith da yn cael ei wneud er mwyn bwydo geirfa yn y canolfannau
- Sillafu'n dda ar y cyfan ar draws yr ystod
- Mynegiant yn glir a dealladwy ar draws yr ystod
- Gafael dda ar ferfau gan y lleiafrif ar frig yr ystod.

© WJEC CBAC Ltd.2025

Meysydd i'w datblygu

- Atalnodi – gwelwyd paragraffau swmpus heb unrhyw ymgais i atalnodi. Roedd hon yn broblem ar draws yr ystod.
- Defnydd o eiriau Saesneg yn enwedig termau yn ymwneud â gweithgaredd penodol
- Defnydd o ferfau a therfyniadau berfau yn anghyson. Ymgeiswyr yn defnyddio ffurf trydydd person y ferf yn hytrach na'r person cyntaf e.e *gwelodd fi…*
- Rhaid canolbwyntio hefyd ar ffurfiau'r ferf 'bod' e.*e roedd fi, oedd fi, roedd ni, roedd nhw* sydd i'w gweld drwy'r trwch erbyn hyn
- Prif lythrennau – mae hyn yn bryder.
- Rhedeg yr arddodiad yn gyffredinol yn broblem. Dyma rai o'r gwallau a welwyd – *o nhw, iddych chi, heb nhw, iddyf fi, iddyn ni, i nhw*
- Diffyg defnydd o'r rhagenw blaen
- Treiglo ar ôl y rhagenw 'fy' a'r anghysondeb wrth wneud hyn.

Diolch diffuant i chi am eich gwaith ar lawr dosbarth yn hyfforddi'r ymgeiswyr.
Llongyfarchiadau i'r ymgeiswyr oll a phob dymuniad da iddynt.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## CYMRAEG IAITH

## TGAU

## Tachwedd 2025

## UNED 3 : TRAFOD, PERSWÂD A CHYFARWYDDIADOL

### Trosolwg o'r Uned

Diolch yn fawr i'r holl ganolfannau a gofrestrodd ymgeiswyr ar gyfer y gyfres hon ac am y gwaith paratoi a wnaed ar gyfer yr arholiad. Diddorol oedd nodi fod nifer uwch eto eleni wedi cofrestru ymgeiswyr yng nghyfres Tachwedd ac mai cofrestriadau cynnar oedd rhain ac nid ymgeiswyr ôl-16. Roedd yn amlwg fod y papur wedi bod yn hygyrch i'r mwyafrif o ymgeiswyr, gyda'r testunau a'r tasgau'n apelio'n gyffredinol at y garfan. Serch hynny, nodwyd unwaith eto fod nifer o ymgeiswyr wedi gadael rhai cwestiynau'n wag, yn enwedig wrth i ofynion dehongli a dadansoddi gynyddu, a bod hyn wedi effeithio ar eu perfformiad terfynol.

### Sylwadau am gwestiynau/adrannau unigol

### Adran A

Unwaith eto, roedd y cwestiynau adalw gwybodaeth wedi profi'n ddi-drafferth, gyda'r mwyafrif llethol o ymgeiswyr yn llwyddo i sicrhau marciau llawn ar y cwestiynau cyntaf. Roedd hyn yn wir yn arbennig ar A1 ac A2, lle dangosodd ymgeiswyr ddealltwriaeth gadarn o'r wybodaeth sylfaenol a'r manylion penodol. Prin iawn oedd y problemau a welwyd yma.

**A3**
Roedd atebion i A3 yn gymysg gydag amrywiadau – rhai wedi tanlinellu mwy nag un gair, a rhai wedi cam-ddeall yn llwyr.

**A4**
Llwyddodd y mwyafrif o ymgeiswyr i ddewis ffeithiau perthnasol yn A4, gan nodi pwyntiau addas am y gyfres. Fodd bynnag, cafwyd dryswch gan rai ymgeiswyr ynghylch geiriad y cwestiwn, yn enwedig y gair 'arall', a arweiniodd at ymatebion oedd yn rhannol berthnasol yn unig. Mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd darllen y cwestiwn yn ofalus cyn ymateb.

**A5**
Roedd A5 yn profi'n heriol i nifer o ymgeiswyr. Roedd atebion yn amrywio'n sylweddol, gyda rhai yn dangos dealltwriaeth glir o'r dasg, ond eraill yn methu deall y ffeithiau am eu bod wedi'u harall-eirio. Gwelwyd nifer yn ticio gormod o focsys, gan arwain at golli marciau. Amlygir bod angen parhau i hyfforddi ymgeiswyr yn y grefft o aralleirio.

**A6**
Roedd ymateb yr ymgeiswyr i'r cwestiwn hwn ychydig yn siomedig ac yn sylweddol wannach na chyfresi blaenorol. Erbyn hyn, mae canolfannau'n hen gyfarwydd gyda'r math hwn o gwestiwn a'r ymadrodd ychwanegol am yr angen i gyfeirio at dechnegau arddull wedi gwella'r safon yn y gorffennol. Braf nodi fod mwyafrif yr ymgeiswyr wedi gallu adnabod a dyfynnu nodweddion arddull perthnasol. Er hynny, gwelwyd diffyg dyfnder a threiddgarwch yn y dehongli. Yn anffodus, profodd geiriad y cwestiwn, oedd yn holi am dechnegau i brofi *barn* yr awdur wedi cymhlethu rhai ymgeiswyr, a hynny wedi arwain at frawddegau dehongli stoc yn ail-ymddangos.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**A7 ac A8**
Perfformiodd yr ymgeiswyr yn weddol dda ar A7 ac A8. Roedd y rhan fwyaf yn gallu nodi pwyntiau perthnasol, er bod tueddiad mewn rhai atebion i hepgor gwybodaeth allweddol i ofynion y cwestiwn.

**A9**
Roedd A9 yn parhau i fod yn heriol. Roedd llawer o ymgeiswyr yn ailadrodd cynnwys y darn darllen, gan ddisgrifio beth oedd wedi digwydd, yn hytrach na dehongli addasrwydd yr unigolyn fel y gofynnwyd. O ganlyniad, prin iawn oedd yr ymatebion a gyrhaeddodd y marciau uchaf. Wedi dweud hynny, rhaid canmol yr ymgeiswyr hynny a lwyddodd i ddehongli – a hynny'n aeddfed a chraff. Braf oedd darllen yr ymatebion hynny.

**A11**
Siomedig oedd gweld fod nifer yr ymgeiswyr a ymgeisiodd ar y cwestiwn hwn yn 82.5% yn y gyfres hon. Dyma gwestiwn sydd wedi derbyn cryn dipyn o sylw a hyfforddiant yn y gorffennol. Trueni felly na ymgeisiodd cynifer y cwestiwn. Wedi dweud hynny, roedd gwaith yr ymgeiswyr a atebodd yn galonogol ac yn dangos gallu i dynnu cysylltiadau a thynnu gwybodaeth ynghyd.  Gwelwyd rhai ymatebion aeddfed a difyr, gyda dehongliad clir o themâu ehangach megis addysgu, dathlu amrywiaeth a herio annhegwch. Serch hynny, roedd llawer yn parhau i dynnu mwy o bwyntiau o un darn darllen nag o'r llall, neu'n camddeall y cwestiwn drwy drafod sgiliau actio yn hytrach na phwrpas cymdeithasol y testunau.

**A12**
Llwyddodd y mwyafrif o ymgeiswyr i ateb A12 yn gywir, gan nodi'r rhesymau perthnasol.

**A13**
Roedd y mwyafrif yn deall ystyr yr ymadrodd yn A13, ond gwelwyd dylanwad Saesneg mewn nifer o atebion, megis defnyddio ymadroddion fel 'dros y top'. Roedd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gallu mynegi'r syniad yn glir drwy ddefnyddio Cymraeg priodol.

**Adran B**

Roedd Adran B yn cynnig cyfle i ymgeiswyr ddangos creadigrwydd ac aeddfedrwydd ieithyddol. Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn dangos bod y testunau wedi apelio, gyda llawer yn ysgrifennu darnau estynedig a phwrpasol.

Calonogol iawn oedd gweld cynnydd sylweddol yn y nifer o ymgeiswyr a ymatebodd i gwestiynau B1 a B2 yn y gyfres hon – bron i 10% yn fwy na chyfres yr haf. Unwaith eto, gwelwyd cwymp yn nifer yr ymgeiswyr B2, ond o 4%. Rhaid canmol dygnwch a dyfalbarhad yr ymgeiswyr sy'n ysgrifennu dau ddarn estynedig o dan amodau arholiad ac yn erbyn y cloc.
Er hynny, yr hyn sy'n parhau i fod yn her barhaus yw safon iaith yr ymgeiswyr.

**B1**
Dyma oedd y dasg gryfaf o'r ddwy, gyda nifer fawr o ymatebion gwreiddiol ac aeddfed. Roedd y rhyddid i ddewis rhaglen deledu yn galluogi ymgeiswyr i ysgrifennu'n naturiol ac yn hyderus. Roedd yn braf gweld amrywiaeth eang o raglenni'n cael eu trafod, gan gynnwys cyfresi Cymraeg a Saesneg poblogaidd. Serch hynny, roedd defnydd o eirfa Saesneg megis 'series', 'episode' a 'comedy' yn dal i ddirywio safon rhai ymatebion.

© WJEC CBAC Ltd.2025

**B2**
Roedd B2 yn fwy heriol i nifer o ymgeiswyr. Roedd llawer o'r ymatebion yn fyrrach ac yn llai perswadiol, gyda rhai yn colli'r cywair araith ac yn ysgrifennu'n fwy adroddiadol. Roedd hyn yn awgrymu diffyg hyder gyda'r ffurf, neu flinder tuag at ddiwedd yr arholiad.
Cywirdeb Ieithyddol

Unwaith eto, roedd cywirdeb ieithyddol yn destun pryder. Gwelwyd nifer o wallau cyson ar draws y papur, gan gynnwys:

- Diffyg berf – ' Nhw'n pobl parchus', neu 'Pobl yn haeddu' – angen defnyddio ffurf cywir bod.
- Angen deall nad oes angen enw lluosog ar ôl rhifolyn e.e. dau gweithwyr – dau weithiwr
- Gwybod/ adnabod
- Rhagenw dibynnol cywir– ein parchu ni, eich parchu chi, eu parchu nhw
- Nos ddoe, mor gymaint, rhai weithiau
- Rhedeg arddodiad 'am', 'o' bawb yn lle 'gan' bawb, siarad 'i'
- Cam-gyfieithu : o bryd i bryd, dros y top, dros y lleuad, eistedd ar ddiwedd eich cadair, mae'n gweld dda ( a good view),
- Defnyddio idiomau allan o'u cyd-destun - Ceffyl blaen, diwrnod i'r brenin, malu awyr.
- Darnau eithaf adroddiadol, syml, ailadroddus.
- Roedd yn syndod gweld faint o ymgeiswyr nad oedd yn gallu defnyddio "rhaid" yn gywir mewn brawddeg. Gwelwyd llawer o enghreifftiau o "Mae pobl rhaid bod yn… " / "Mae pobl rhaid trio…" "Does neb rhaid…" / "Bydd rhywun rhaid pigo fe lan"

Yn gyffredinol, roedd safon gwaith y goreuon yn destun balchder, gyda darnau aeddfed, hyderus ac estynedig ar draws y papur. Mae'r data lefel eitem yn cefnogi'r darlun ansoddol hwn, gan gadarnhau cryfderau'r cwestiynau adalw a'r heriau parhaus wrth ddehongli a chywirdeb ieithyddol. Mae angen i ganolfannau barhau i ganolbwyntio ar ddatblygu'r sgiliau hyn er mwyn galluogi mwy o ymgeiswyr i gyrraedd brig y bandiau marcio.

© WJEC CBAC Ltd.2025

## Eich cefnogi chi

### Manylion cyswllt a chysylltau defnyddiol

Mae ein tîm pwnc cyfeillgar wrth law i'ch cefnogi rhwng 8.30 a.m. a 5.00 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener.
Ffôn: 029-22404-255
E-bost: cymraeg@cbac.co.uk
Tudalen pwnc y cymhwyster: TGAU Cymraeg Iaith

Gweler manylion cyswllt defnyddiol eraill yma: Manylion Cyswllt Defnyddiol | CBAC

### Hyfforddiant DPP / Dysgu Proffesiynol

Manteisiwch ar ein cyrsiau DPP/DP ar-lein rhad ac am ddim poblogaidd i gael adborth ar arholiadau ac i ofyn cwestiynau i'n tîm pwnc, a dewch i un o'n digwyddiadau wyneb yn wyneb, sy'n canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu, darparu syniadau ar gyfer yr ystafell ddosbarth a datblygu dealltwriaeth o farcio ac asesu.

Mae manylion ynghylch ein holl gyrsiau i'w cael yma: https://www.cbac.co.uk/home/dysgu-proffesiynol/

### Cymwysterau CBAC

Fel corff dyfarnu mwyaf Cymru, mae CBAC yn cefnogi ei gymuned addysg drwy ddarparu cymwysterau dwyieithog ac asesiadau dibynadwy a chefnogaeth arbenigol i ysgolion a cholegau ar draws y wlad. Mae hyn yn caniatáu i'n dysgwyr gyrraedd eu potensial yn llawn.

Gyda phrofiad o 70 mlynedd a mwy, rydym hefyd ymhlith y prif ddarparwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon.

© WJEC CBAC Ltd.2025

CBAC
245 Rhodfa'r Gorllewin
Caerdydd CF5 2YX
Rhif Ffôn 029 2026 5000
Ffacs 029 2057 5994
E-bost: arholiadau@cbac.co.uk
gwefan: www.cbac.co.uk

© WJEC CBAC Ltd.2025